# Newidiadau i Gynllun Datblygu Unedol Cyngor Sir Gaerfyrddin

**1. Polisi Strategol – SP1: Twf Strategol**

"B*ydd y CDLl yn darparu ar gyfer twf economi gynaliadwy a gofynion tai yn y dyfodol drwy ddarparu: 9,814 o dai newydd i fodloni'r gofyniad tai a nodwyd o 8,822.*"

Rydym yn gwrthwynebu adeiladu 9,814 o dai newydd yn y sir ac yn grediniol bod angen adeiladu tai ar gyfer y galw presennol yn y sir a thwf rhag dybiedig yn y boblogaeth sirol yn unig.

**2. PrC1/MU1 - Gorllewin Caerfyrddin, Caerfyrddin**

"*Cynigir cymysgedd o ddefnyddiau, yn cynnwys defnydd preswyl (darpariaeth ar gyfer 700 o dai newydd o fewn cyfnod y cynllun hwn), cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol (yn cynnwys ysgol gynradd) ac amwynder.*"

Dylid ymrwymo o'r cychwyn cyntaf i glustnodi pob ysgol newydd yn y sir fel rhai cyfrwng Cymraeg er mwyn cyfrannu at wireddu strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac yn sgil y dirywiad ieithyddol enbyd a welwyd yn y sir dros yr ugain mlynedd olaf.

**3. Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun**

Dyma enghreifftiau isod ond mae'n pwynt yn un cyffredinol ar gyfer pob clwstwr yn y CDU cyfan.

- PrC1/h4 Tir oddi ar Barc y Delyn 17 1.7 Blwyddyn 11-15
- PrC1/h5 I'r dwyrain o Lôn Devereaux 10 1 Blwyddyn 6-10
- PrC1/h10 Brynhyfryd 20 2.4 Blwyddyn 6-10
- PrC1/h12 Heol Castell Pigyn, Abergwili Σ 35 4.2 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15
- PrC1/MU1 Gorllewin Caerfyrddin Σ 222 26.64 Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10
- PrC1/MU2 Pibwr-lwyd 247 61.75 Blwyddyn 11-15
- PrC1/(iv) Tir oddi ar Heol Trefechan 30 3.6 Blwyddyn 11-16

Pam fod cyfradd yr unedau fforddiadwy yn amrywio o ddatblygiad i ddatblygiad? Onid oes angen yr un canran drwyddi draw? Credwn fod y canrannau presennol uchod yn annigonol ac yn methu a chyfrannu at lefydd yr argyfwng tai sy'n bodoli yn y sir ac yn genedlaethol. Rydym yn argymell canran o 50% fel isafswm. Datblygiadau tai ar lefel fasnachol i ddatblygwyr yw'r rhelyw a fydd ar werth ar y farchnad agored ac yn denu mwy o brynwyr ariannog sydd ar gyfraddau cyflog y tu hwnt i fwyafrif trigolion y sir.

**4. Polisi Strategol – SP 5: Strategaeth Tai Fforddiadwy Bydd y Cynllun yn sicrhau bod cymaint o dai fforddiadwy ag sy'n bosibl yn cael eu darparu hyd at 2033 drwy ddarparu targed isafswm o 2,111 1,900 o dai fforddiadwy. Bydd hyn o gymorth i ddatblygu a gwella cymunedau cynaliadwy a chytbwys.**

Tra bo ni'n cefnogi cynllunio cynyddu yn y nifer o dai fforddiadwy o 1,900 i 2,111 nid yw hyn yn fawr o newid mewn gwirionedd. Credwn hefyd bod angen cyfradd sylweddol uwch o dai fforddiadwy a hynny ar sail methodoleg o niferoedd unigolion sydd ar restr aros y sir, stoc tai presennol sydd ar gael i'w rhentu a rhagdybiaeth o dwf yn y boblogaeth sirol dros y 15-20 mlynedd nesaf. Does dim amheuaeth na fydd y nifer presennol yn llwyddo o ran bod "...*o gymorth i ddatblygu a gwella cymunedau cynaliadwy a chytbwys*."

"*Rhif paragraff newydd: Wrth gyfuno'r holl ddulliau o ran cyfraniadau tai fforddiadwy drwy'r system gynllunio, y targed a nodwyd ym Mholisi SP5 yw'r man cychwyn ar gyfer darparu Tai Fforddiadwy yn y sir, ac mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf posibl lle bo hynny'n berthnasol."*

**5. AHOM1: Darparu Tai Fforddiadwy**

"*Cyfraniadau Ar-safle Bydd angen cyfraniad ar-safle at dai fforddiadwy ar bob safle a ddyrannwyd ar gyfer tai'r farchnad ac ar hap safleoedd sy'n cynnwys 10 neu fwy o dai, er mwyn bodloni'r targed ar gyfer tai fforddiadwy a bennir ym Mholisi SP5. Mae'r targed canrannol ar gyfer tai fforddiadwy yn seiliedig ar raddfa'r datblygiad: a) bydd yn ofynnol i safleoedd sy'n cynnwys 10 - 19 o dai ddarparu cyfraniad tai fforddiadwy o 10%; b) bydd yn ofynnol i safleoedd sy'n cynnwys 20 - 50 o dai ddarparu cyfraniad tai fforddiadwy o 12%; c) bydd yn ofynnol i safleoedd sy'n cynnwys 51 - 100 o dai ddarparu cyfraniad tai fforddiadwy o 20%; d) bydd yn ofynnol i safleoedd sy'n cynnwys 101 o dai neu fwy ddarparu cyfraniad tai fforddiadwy o 25%*

*Rhif paragraff newydd: Mae'r ganran targed tai fforddiadwy a nodir yn y polisi yn darged i'w defnyddio fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau tai fforddiadwy. Rhif paragraff newydd: Pan fydd cynigion preswyl cyfagos a chysylltiedig yn peri bod cyfanswm y niferoedd yn cyrraedd neu'n mynd heibio'r trothwyon uchod, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau elfen o dai fforddiadwy sy'n seiliedig ar gymhwyso'r canrannau targed uchod i gyfanswm yr anheddau. Rhif paragraff newydd: Bydd yn ofynnol i gynigion sicrhau bod yr annedd yn parhau i fod yn fforddiadwy am byth i'r holl feddianwyr dilynol.*"

Credwn fod y canrannau presennol uchod yn annigonol ac yn methu â chyfrannu at leddfu yr argyfwng tai sy'n bodoli yn y sir ac yn genedlaethol. Rydym yn argymell canran o 50% fel isafswm. Datblygiadau tai ar lefel fasnachol i ddatblygwyr yw'r rhelyw a fydd ar werth ar y farchnad agored ac yn denu mwy o brynwyr ariannog sydd ar gyfraddau cyflog y tu hwnt i fwyafrif trigolion y sir. Mewnlifiad o bobl di-Gymraeg fydd y rhelyw, yn ôl patrymau symudedd I'r sir. Bydd hyn yn cyfrannu at ddirywiad pellach y Gymraeg yn y sir sydd eisoes wedi gostwng i 39% lle roedd dros 50% ugain mlynedd ynghynt. Rhaid wrth fesurau mwy cadarn i atal dirywiad pellach, ceisio sefydlogi os nad atgyfodi'r canran o siaradwyr Cymraeg yn y sir yn unol a Cymraeg 2050. Meddai gwefan Atlas yr iaith Gymraeg wrth drafod cyfrifiad 2021 yn Sir Gaerfyrddin:

"*Collwyd 5,200 o siaradwyr Cymraeg yn y sir rhwng 2011 a 2021, ar ôl colled debyg o 5,800 rhwng 2001 a 2011, sy'n golygu lleihad o 11,000 mewn 20 mlynedd.*

*Mae pob grwp oedran, ac eithrio pobl ifanc rhwng 25 a 34 yn dangos lleihad, gyda'r colledion mwyaf i'w gweld ymysg pobl rhwng 35 a 64 oed. Ymysg y grwpiau oedran hyn mae'r canrannau lleiaf yn y sir bellach, gydag ond tua thraean ohonynt yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r gyfran sy'n gallu'r iaith yn codi ymysg y to hŷn, i 36.0 y cant o bobl rhwng 65 a 74 oed a 45.0 y cant ymhlith pobl dros 75.*"

https://www.atlasygymraeg.cymru/cy/siroedd/sir-gaerfyrddin

**6. AHOM2: Tai Fforddiadwy - Safleoedd Eithriadau**

"*Rhif paragraff newydd: Bydd yr holl dai fforddiadwy newydd sydd ar gyfer angen lleol yn cael eu cyfyngu i'r rheiny sy'n gallu dangos bod angen iddynt fyw yn ardal y Cyngor Tref a Chymuned a bod angen tŷ fforddiadwy arnynt. Cyfeirir at y Rhestr Termau sy'n ystyried y Cymhwysedd Anghenion Lleol, a'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni i ganiatáu tai angen lleol.*"

Rydym yn cefnogi'r pargraff newydd ond hefyd yn tynnu eich sylw at y sefyllfa ganlynol a nodir gan Jayne Bryant, cyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai mewn gohebiaeth â ni dyddiedig 17eg Tachwedd 2025.

"*yn ofynnol i awdurdodau lleol o dan adran 167 o Ddeddf Tai 1996 fod â chynllun dyrannu tai cymdeithasol ar gyfer pennu blaenoriaethau wrth ddyrannu tai cymdeithasol. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir bod 5 categori y dylid rhoi blaenoriaeth neu flaenoriaeth resymol iddynt wrth ddyrannu tai cymdeithasol, o fewn eu cynlluniau dyrannu tai cymdeithasol, er ei fod yn ôl disgresiwn a dyluniad yr awdurdod lleol o ran sut mae'r grwpiau dewisol hynny'n cael eu trefnu neu eu blaenoriaethu o fewn eu cynlluniau unigol. Wrth benderfynu ar eu cynlluniau penodol, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru roi sylw i Gòd Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol: Dyrannu Llety a Digartrefedd ynghyd â'u rhwymedigaethau statudol.*

*Fodd bynnag, ochr yn ochr â'u cynlluniau dyrannu ac mewn ymateb i anghenion lleol eu hardaloedd, gall awdurdodau lleol ystyried disgrifiadau penodol eraill o bobl y dylid dyrannu llety iddynt fel rhan o bolisi gosod lleol y gellir ei gynllunio i ddyrannu llety o fewn ardal benodol o'u hawdurdod lleol.* ***Mae adran 167(2E) o Ddeddf 1996 yn caniatáu i awdurdodau lleol ddyrannu llety i bobl o ddisgrifiad penodol, a allai gynnwys gofynion iaith, p'un a ydynt yn dod o fewn y categorïau dewis rhesymol ai peidio, ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn gallu sicrhau nad yw hyn yn dominyddu eu cynllun dyrannu, ac y dylid blaenoriaethu pobl gyffredinol sydd â ffafriaeth resymol y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol drostynt dros y rhai nad oes ganddynt ddyletswydd drostynt.***

*Dylai'r polisïau gydymffurfio â gofynion adran 167 o Ddeddf Tai 1996 ac unrhyw ddyletswyddau statudol eraill, megis y rhai o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Rhaid i bolisïau o'r fath hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth, asesu a monitro effaith cydraddoldeb i sicrhau eu bod yn cyflawni'r cynaliadwyedd cymunedol y bwriedir iddynt ei gyflawni.*"

Byddai mabwysiadu polisi ymarferol fel hyn yn gyfle euraidd i'r Cyngor Sir ddangos ymrwymiad clir a phendant o blaid ceisio diogelu ac atgyfnerthu'r iaith mewn sir sydd wedi gweld y dirywiad mwyaf mewn 20 mlynedd.

**7. Polisi Strategol – SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru**

Rydym yn croesawu'r polisi a'r paragraff newydd canlynol

"*Ystyrir Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Mae Cyfrifiad 2021 yn dynodi bod 17.8% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, tra bod y ffigur cyfatebol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 39.9%. O ran dadansoddiad daearyddol o gyfran y siaradwyr ledled y Sir, mae ar ei hisaf yn ward Tyisha lle mae 18.9% yn siarad Cymraeg, ac ar ei huchaf ym Mhontyberem lle mae 60.7% yn siarad Cymraeg. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob ward yn y Sir, ac am y rheswm hwn yn bennaf y mae Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried yn sensitif yn ieithyddol. Hefyd, mae data'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y Sir sy'n dangos natur fregus yr iaith yn Sir Gaerfyrddin.*"

Ond mae angen esbonio ar gychwyn y frawddeg gyntaf mai 17.8% yw'r canran cenedlaethol sy'n gallu siarad Cymraeg gan nad yw hynny'n eglur. Mae'r frawddeg olaf yn cadarnhau ein sylwadau blaenorol a'r unig ffordd i daclo 'gostyngiad sylweddol' yw trwy gyfres o fesurau radical a phell gyrhaeddgar. Heb hynny, parhau i golli tir fydd hynt y Gymraeg yn sir Gâr.

Hefyd, mae'n debygol iawn y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi a mabwysiadu argymhellion adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg ("*Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*") yn fuan sy'n cynnwys dynodi o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Bydd hyn felly yn berthnasol iawn o fewn eich sir a adnabyddir fel un ardal ieithyddol sensitif yn barod. Hefyd mae angen cyfeirio at argymhelliad 33: Dylai awdurdodau lleol ac awdurdodau cynllunio ystyried a ellir datblygu modelau, o ran gosod tai cymdeithasol neu wrth lunio Cytundebau Adran 106, lle gallai'r Gymraeg fod yn un ystyriaeth gadarnhaol, ochr-yn-ochr ag ystyriaethau eraill. Dylid craffu ar unrhyw fodelau a ddatblygir er mwyn sicrhau nad oes anfantais annerbyniol i'r boblogaeth ddi-Gymraeg, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol.

**8. WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd**

Rydym yn gwrthwynebu'r paragraff newydd canlynol:

"*Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiadau tai ar raddfa fawr ar hap-safleoedd mawr, a fydd yn unigol neu gyda'i gilydd yn fwy na'r lwfans hap-safleoedd blynyddol o fewn y Cynllun, gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg.*"

Credwn bod nifer o ddatblygiadau tai ar raddfa fechan o'u cwmpasu gyda'i gilydd ar draws y sir yn creu clwstwr sy'n debygol iawn o gael effaith ar iaith cymunedau'r sir, yn arbennig mewn cymunedau bychain gwledig lle mae dyfodiad 5 tŷ a 5 teulu newydd yn newid natur a gwead y gymuned honno. O gofio'r "*gostyngiad sylweddol o ran yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y Sir sy'n dangos natur fregus yr iaith yn Sir Gaerfyrddin*" mae gwir angen cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar pob datblygiad tŷ newydd o 5 uned neu fwy.

Rydym yn gwrthwynebu dileu'r paragraff canlynol…

"*11.181 Mae Strategaeth y Cynllun yn darparu ar gyfer twf organig ar raddfa fach o fewn y Pentrefi Gwledig ac mae polisïau HOM1 a HOM3 yn adeiladu ar hyn gan ganiatáu datblygu ar raddfa briodol ac mewn lleoliadau priodol. Ystyrir bod datblygiad bob yn dipyn ar y raddfa hon yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at dwf cynaliadwy'r Gymraeg mewn cymunedau gwledig, a bod unrhyw effeithiau negyddol yn debygol o gael eu hamsugno gan y gymuned. Efallai nad yw datblygiad nas rhagwelwyd ar raddfa sylweddol nas caniateir ym mholisïau'r Cynllun yn gydnaws â Strategaeth y Cynllun, ac felly mae ei effeithiau heb eu hasesu ac yn anhysbys. Os caiff cynigion o'r fath eu cyflwyno i gael eu hystyried, bydd angen cyflwyno asesiad llawn gyda hwy sy'n nodi eu heffeithiau tebygol ar y Gymraeg.*"

Mae hepgor y gofyniad yma yn gwanhau ymhellach y cyfres o fesurau i ddiogelu'r Gymraeg fel iaith fyw gymunedol ac ni chynigir unrhyw esboniad dros ei ddileu. Ond mae angen herio'r gosodiad yn y geiriad gan fod datblygiadau bob yn dipyn ar y raddfa hon hefyd yn gallu bod yn negyddol a does dim gwarant bod modd eu hamsugno gan y gymuned. Mae tystiolaeth y 3 cyfrifiad olaf yn cadarnhau hynny sy'n tanlinellu'r angen am gadw'r gofyniad yma yn y CDU. Fel arall mae'r gosodiad yn haeriad goddrychol, dadlennol, di-sail ac anghywir.

Fel ag y saif ar hyn o bryd felly, nid yw Polisi Strategol – SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru yn ddigonol na digon cadarn i wrthsefyll effaith datblygiadau tai fydd yn cyfrannu at greu effaith negyddol ac andwyol pellach ar y Gymraeg mewn sir lle mae bregustra ieithyddol yn endemig. O ganlyniad, NID yw'r brawddegau "*Ni fydd cynigion datblygu sy'n cael effaith andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu caniatáu oni bai y gellir lliniaru'r effaith. Bydd disgwyl i'r holl gynigion datblygu y mae WL1 yn berthnasol iddynt nodi mesurau sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru.*" yn ffeithiol gywir.

**9. VE3: Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen nad yw'n Barhaol**

"*Dylid ychwanegu'r canlynol fel paragraff newydd rhwng paragraff 11.254 a pharagraff 11.255*
*Mae'r term "gor-grynodiad" yng nghyd-destun y Polisi hwn yn cyfeirio at amlhau safleoedd carafannau teithiol, safleoedd gwersylla, a safleoedd gwersylla amgen nad ydynt yn barhaol sy'n arwain at effeithiau andwyol ar gymeriad, swyddogaeth ac amwynder yr ardal. Dylid ystyried nifer a dwysedd cyfleusterau tebyg yn yr ardal yn ogystal â'u patrwm dosbarthiad ac a yw'r effeithiau gweledol neu amgylcheddol cronnol yn tynnu sylw oddi wrth gymeriad y dirwedd, y forwedd neu'r drefwedd.*"

Caiff hyn hefyd effaith negyddol ar y Gymraeg mewn cymunedau ac mae angen cydnabod ac ychwanegu hynny yn y geiriad newydd. Mae hyn hefyd yn wir wrth drafod "*PSD7: Diogelu Cyfleusterau Cymunedol." sydd ond yn cyfeirio at "niweidio gwead cymdeithasol.*"

**10. Adendwm Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd**

Atodiad B. Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o Bolisïau Newydd

Rydym yn gwrthwynebu pob newid sgôr PSD7 'Diogelu Cyfleusterau Cymunedol' yn erbyn pob un o'r pwyntiau uchod lle rydym wedi datgan gwrthwynebiad.